

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol) o bell trwy fideo-gynhedledda, Dydd Iau, 24 Chwefror 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datgan Buddiannau Personol a Byddiannau sy'n Rhagfarnu**
3. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 (Tudalennau 3 - 6)**
4. **Diweddariad Cyffredinol â€“ Tacsis a materion eraill (Anstatudol) (Tudalennau 7 - 12)**

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Edwards'.

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol)

Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu (Anstatudol)
a gynhaliwyd o bell trwy fideo-gynhadledd ddydd Iau, 16 Medi 2021**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones (Cadeirydd) y Cynghorwyr Clive Davies, Gareth Davies, Marc Davies, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Elaine Evans, Hag Harris, Dan Potter, Ivor Williams a Matthew Woolfall Jones

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Aelod Cabinet)

Swyddogion yn Bresennol: Mr Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad, Ms Anne Louise – Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu, Mrs Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol – Diogelu'r Cyhoedd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democraataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraataidd a Safonau

(10:20am -11:25pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Euros Davies a Mark Strong am na allent fynychu'r cyfarfod.

2 Datgelu buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu

Dim

3 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

PENDERFYNWYD cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020.

Materion sy'n Codi

Dim.

4 Diweddariad Cyffredinol

Ystyriwyd Adroddiad y Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu a'r Uwch Swyddog Trwyddedu yn sôn wrth yr Aelodau am weithgarwch a wnaed gan yr Adran Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel a ganlyn:-

- 'Wild Animal Kingdom' y Borth – Diweddariad
- Cerbydau a Dynnir gan Geffylau – Polisi (Ymgynghoriad)
- Trwyddedu Gwersylla – Ymestyn defnydd dros dro i 56 diwrnod
- Ystadegau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat 2020/2021
- Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais Gwrandawiadau Tacsis am Drwydded Cerbyd – Hurio Preifat
- Bridio Cŵn – Apêl Achos Llys
- Diweddariad Cyffredinol ynghylch Deddfwriaeth Lles Anifeiliaid/Bridio Cŵn - Rheoliadau Newydd, Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, ac ati.

Tudalen 4

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD

(i) i nodi'r adroddiad er Gwybodaeth;

(ii) nodi y byddai angen ystyried y Polisi (Ymgynghoriad) – Cerbydau a Dynnir gan Geffylau mewn pwyllgor Craffu yn y dyfodol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet; a

(iii) nodi bod adroddiad ar y cyflwyniad i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021; sy'n cyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd parti (a chathod bach ("Cyfraith Lucy") yng Nghymru. Roedd y trosolwg o'r sefyllfa ar hyn o bryd gyda bridio trwyddedig cŵn yng Ngheredigion i fod i gael ei ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 22 Medi

5 Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Adolygu'r Polisi Presennol - Penderfynu ynghylch Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau presennol

Rhoddyd ystyriaeth i'r adroddiad ar Drwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – Adolygiad o'r Polisi ar hyn o bryd - Pennu Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwydded ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor Trwyddedu i'r Gwasanaeth Trwyddedu gychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, ar newid Polisi Addasrwydd y Cyngor yn ymwneud ag ymgeiswyr a deiliaid cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, trwyddedau gyrwyr a thrwyddedau gweithredwyr.

Amlinellwyd y Wybodaeth ganlynol:-

- Cefndir
- Angen i Adolygu'r Polisi Addasrwydd/Ffitrwydd ar hyn o bryd
- Yr Angen am Ymgynghoriad
- Goblygiadau Cyfreithiol

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i:-

(i) gymeradwyo'r adolygiad o'i Bolisi Addasrwydd ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, a

(ii) cymeradwyo'r angen i ymgynghori â'r fasnach a'r cyhoedd yn ehangach (gan gynnwys sefydliadau lleol perthnasol) ar y Polisi Addasrwydd/Ffitrwydd drafft (Gyrwyr a Pherchnogion Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat).

6 Adroddiad ar y bwriad i Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion parthed Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, Gyrwyr a Gweithredwyr

Ystyriwyd y Cynnig i Adolygu Datganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion yn ymwneud â Gweithredwyr, Gyrwyr a Cherbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor o'r angen i adolygu'r Polisiâu ar hyn o bryd o ran Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a cheisio ei gymeradwyaeth i ymgynghori ar adolygiad y Polisi.

Amlinellwyd y Wybodaeth ganlynol:-

- Cefndir
- Newidiadau i Ddatganiad y Polisi Trwyddedu

Tudalen 5

- Ymgynghori
- Cyraeddadwyedd
- Goblygiadau Cyfreithiol

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn penderfynu CYMERADWYO:-

(i) yr adolygiad o'i Ddatganiad o Bolisi Trwyddedu sy'n ymwneud â'r Gyrwyr, Gweithredwyr a Cherbydau Hacni (Tacsï) a Cherbydau Hurio Preifat, yn unol â Safonau Statudol newydd yr Adran Drafnidiaeth ac Argymhellion Llywodraeth Cymru o ran Cysoni Trwyddedu Tacsï a Cherbydau Hurio Preifat; a

(ii) yr angen i ymgynghori â'r fasnach a'r cyhoedd yn ehangach (gan gynnwys sefydliadau lleol perthnasol er enghraifft; grwpiau hygyrchedd) ar Ddatganiad drafft o Bolisi Trwyddedu.

7 **Unrhyw Fusnes Arall**

Cododd y Cynghorydd Gareth Davies ei bryderon ynghylch gyrwyr tacsï yn rhedeg peiriannau eu ceir y tu allan i giât yr ysgol; roedd hyn hefyd yn wir gyda gyrwyr tacsï ar y safle tacsï yn ystod y gaeaf i gadw'n gynnes. Dywedwyd bod hyn yn erbyn y gyfraith oherwydd ei effaith ar yr amgylchedd. Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y dylai'r Cynghorydd Davies, yn dilyn y cyfarfod, gysylltu ag ef gyda manylion yr ysgol, rhif y tacsï ac ati er mwyn gallu anfon llythyr o'r Gwasanaeth Trwyddedu yn eu hysbysu bod y mater hwn wedi'i wahardd. Byddai trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i ymweld â'r ardaloedd hyn ac arolygu cerbydau.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu - tacsï a materion eraill (anstatudol) a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 18 Tachwedd 2021

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol)

Dyddiad y cyfarfod: 24 Chwefror 2022

Teitl: Diweddariad Cyffredinol – Tacsis a materion eraill (Anstatudol)

Pwrpas yr adroddiad: Er gwybodaeth

Adolygu Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor – Omnibysus a dynnir gan geffylau – Diweddariad

Cyflwynwyd adroddiad ynghylch y polisi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, a ystyriodd gynnwys yr adroddiad a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Roedd unigolyn wedi cysylltu â'r Awdurdod i fynegi diddordeb mewn defnyddio cart a cheffyl i fynd â theithwyr ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth. Nid yw fersiwn bresennol y Polisi Cyffredinol ynghylch Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn cynnwys trwyddedu cart a cheffyl / omnibws ac ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw is-ddeddfau ar gyfer rheoleiddio omnibysus.

Ni all cart a cheffyl sy'n darparu cludiant cyhoeddus gael eu trwyddedu fel cerbyd hurio preifat am fod yr elfen yma'n gaeth i gerbydau modur yn unig. Gall cart a cheffyl gael eu trwyddedu i'w defnyddio fel 'omnibws' o dan Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889, fodd bynnag er mwyn trwyddedu a rheoli'r defnydd o omnibysus o'r fath bydd yn ofynnol i'r Awdurdod yn gyntaf:

- 1) Diwygio ei Bolisi Cyffredinol er mwyn cyflwyno amodau trwyddedu newydd a phenodol ar gyfer y math hwn o gludiant, a
- 2) Mabwysiadu is-ddeddf newydd i reoleiddio ceirt a cheffylau / omnibysus.

Roedd yn angenrheidiol cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r Polisi. Derbyniodd y Gwasanaeth 216 ymateb i'r ymgynghoriad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac argymhell i'r Cabinet naill ai:

1. nad yw'r newid arfaethedig i'r polisi yn angenrheidiol ac y dylai'r Awdurdod ystyried parhau fel sir "heb omnibysus", neu
2. mae'r newid arfaethedig i'r polisi yn angenrheidiol er mwyn caniatáu omnibysus yn Aberystwyth a / neu unrhyw ardal arall o'r sir sy'n golygu y bydd yn rhaid
 - a) mabwysiadu'r amodau trwyddedu newydd, a
 - b) mabwysiadu is-ddeddf newydd ar gyfer y trywydd penodol newydd a / neu unrhyw drywydd omnibws arfaethedig yn y dyfodol er mwyn gallu cymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn unrhyw achos o fynd yn groes i amodau'r drwydded.

Tudalen 8

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau gan gynnwys rhai am y trefniadau o ran ardal i'w defnyddio gan y ceffyl a chart i droi yn yr harbwr a lle byddai'r cerbyd cludo ar gyfer y ceffyl a'r cart yn cael ei barcio. Pwysleisiwyd y dylai lles anifeiliaid fod yn flaenoriaeth a dylid gosod arwyddion priodol.

Cydnabu'r Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yn dilyn trafodaeth bellach, penderfynodd y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet fod y newid arfaethedig i'r polisi yn angenrheidiol er mwyn caniatáu omnibysus yn Aberystwyth a / neu unrhyw ardal arall o'r sir sy'n golygu y bydd yn rhaid:

- a) mabwysiadu'r amodau trwyddedu newydd, a
- b) mabwysiadu is-ddeddf newydd ar gyfer y trywydd penodol newydd a / neu unrhyw drywydd omnibws arfaethedig yn y dyfodol er mwyn gallu cymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn unrhyw achos o fynd yn groes i amodau'r drwydded.

Bydd y Polisi a'r is-ddeddf ddrafft yn cael eu hystyried gan y Cabinet ar 12 Gorffennaf 2022.

Adolygu Prisiau Tacsis

Derbyniodd y Tîm Trwyddedu gais a arwyddwyd gan nifer o berchnogion a gyrwyr trwyddedig yn gofyn i'r tîm adolygu'r prisiau a'r ffioedd presennol ar gyfer cerbydau hacni yng Ngheredigion, sydd wedi bod yr un peth ers mis Ebrill 2018.

Bydd yr adolygiad yn cynnwys ymgynghori â'r gweithredwyr a'r gyrwyr trwyddedig sy'n gweithredu o fewn y Sir, gan ofyn am gynigion ar gyfer unrhyw gynnydd.

Ar ôl ymgynghori â'r sector, bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'w ystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu anstatudol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys manylion unrhyw gynnydd arfaethedig yn y prisiau, manylion unrhyw gynnydd mewn prisiau tanwydd ers y cynnydd diwethaf mewn prisiau tacsis a chymhariaeth â phrisiau cyfredol pob Awdurdod yng Nghymru a Lloegr.

Os caiff ei awdurdodi gan y Pwyllgor, bydd tabl o'r ffioedd newydd arfaethedig yn cael ei gyhoeddi yn y papurau newydd lleol, gan roi 14 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiadau, yn unol ag Adran 65 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Y Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch Digwyddiadau - Eisteddfod Tregaron 2022

Ar 18 Ionawr 2022, cyfarfu'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch Digwyddiadau i ailafael yn y gwaith cynllunio ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Trafodwyd nifer o bethau sydd angen eu cydlynu'n ofalus ac sydd angen cydweithio agos er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn un llwyddiannus a diogel.

Roedd nifer o randdeiliaid allweddol yn y cyfarfod gan gynnwys swyddogion o Wasanaethau Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor. Cytunwyd y byddai cyfarfodydd o is-grwpiau ychwanegol yn cael eu cynnal er mwyn galluogi i wasanaethau megis Diogelu'r Cyhoedd ddarparu cyngor i drefnwyr y digwyddiad ynghylch nifer o faterion rheoleiddio

Tudalen 9

a fydd yn amrywio o drwyddedau safle, hysbysiadau digwyddiad dros dro, trwyddedu taccis, gofynion o ran adloniant, darparu lluniaeth gyda'r nos ac ati, iechyd yr amgylchedd / diogelwch bwyd, safonau masnach / gwerthu i bobl dan oed, ac wrth gwrs, y trefniadau ar gyfer rheoli'r risg o COVID-19 yn y digwyddiad.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch Digwyddiadau ar-lein ar 22 Mawrth 2022.

Ceisiadau i Ddosbarthu Ffilmiau

Ym mis Rhagfyr 2021, derbyniodd yr Awdurdod gais oddi wrth Junko Takekawa, Uwch Swyddog Rhaglen y Celfyddydau o Sefydliad Japan yn Llundain a oedd yn gofyn i'r Tîm Trwyddedu wyllo a dosbarthu tair ffilm Japaneaidd, er mwyn eu dangos yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn ystod mis Chwefror / Mawrth 2022.

Roedd y ffilmiau wedi'u gosod yn nosbarth "G" yn Japan, sy'n golygu y gall pawb eu gwyllo. Gwyliwyd a dosbarthwyd y ffilmiau gan swyddogion o'r Tîm Trwyddedu a phenderfynwyd eu gosod yn nosbarth PG – *Parental Guidance* neu 12A (ni chaiff neb sy'n iau na 12 oed wyllo ffilm yn y categori hwn yn y sinema oni bai bod oedolyn gyda hwy).

Trwyddedau Meysydd Carafanau Gwyliau – Adolygu'r Amodau

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Trwyddedu wrthi'n adolygu'r amodau sydd ynghlwm wrth Drwyddedau Meysydd Carafanau Gwyliau.

Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn defnyddio safonau enghreifftiol sydd heb gael eu diweddarau ers 1989. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am weinyddu'r drefn drwyddedu ar gyfer rheoleiddio meysydd carafanau yng Ngheredigion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- c) Meysydd ar gyfer Carafanau Sefydlog a
- d) Meysydd ar gyfer Carafanau Teithiol.

Ceir tua 140 o safleoedd gwyliau a theithiol trwyddedig yng Ngheredigion, sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.

Yn ystod 2019/2020 cyfarfu aelodau Fforwm Trwyddedu'r Pedair Sir, sy'n cynnwys aelodau o Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Phowys, ag aelod o Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddrafftio amodau newydd, ac mae'r rhain wrthi'n cael eu gwneud yn derfynol ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn angenrheidiol er mwyn gwneud yr amodau yn gyfredol ac er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r amodau sydd ynghlwm wrth y trwyddedau yn seiliedig ar safonau enghreifftiol a bennwyd yn 1983 ac 1989.

Bydd adroddiad yn cael ei gwblhau a bydd yn dod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu gyda'r bwriad o gymeradwyo'r amodau enghreifftiol newydd cyn iddynt fynd drwy gyfnod ymgynghori o 28 diwrnod.

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Daeth y rheoliadau uchod i rym ar 20 Medi 2021 ac maent yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu ddarparu trwydded a rheoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid.

Ar 8 Hydref 2021, derbyniodd yr awdurdod lleol gais oddi wrth fusnes newydd yn gofyn am drwydded gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid ar gyfer busnes yn Llanrhystud. Roedd perchennog y busnes eisiau cynnig profiadau'n cynnwys anifeiliaid i ymwelwyr ar ei dyddyn. Y bwriad oedd y byddai ymwelwyr yn gallu mwynhau gweld nifer o anifeiliaid fferm gan gynnwys geifr, defaid, ceffylau, moch, ieir ac alpacas. Mae angen trwydded ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig o gerdded yr alpacas oherwydd fe'i hystyrir yn weithgaredd sy'n ymwneud ag anifeiliaid.

Archwiliwyd y cyfleusterau gan swyddogion yr awdurdod a darparwyd rhestr o amodau i'r ymgeisydd a oedd angen eu bodloni cyn i'r awdurdod rhoi trwydded iddynt. Wedi hynny rhoddwyd trwydded ar gyfer y gweithgaredd y gwnaed cais amdano.

Mae cerdded alpacas yn dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae wedi ymddangos ar raglenni megis Countryfile. Derbyniodd yr Awdurdod gais tebyg ar gyfer safle yn Llanybi, Ceredigion hefyd.

Argymhelliad / Argymhellion:

Dylai'r Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Rheswm dros yr argymhelliad:

Rhoi gwybod i'r Aelodau am weithgarwch yr Adain Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a rhoi gwybod am waith sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd.

Fframwaith Polisi:

Mae'r swyddogaethau statudol a gyflawnir gan y Tîm Trwyddedu yn elfen hanfodol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd.

Blaenoriaethau Corfforaethol:

- Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
- Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

O fewn y gyllideb

Maes Gwasanaeth:

Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Pwerau Statudol:

Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Gamblo 2005 ac unrhyw Reoliadau a wnaed o dan y Deddfau hynny.

Papurau Cefndir:

Dim

Tudalen 11

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Alun Williams (Polisi a Pherfformiad)

Swyddog(ion) Adrodd: Carwen Evans (Rheolwr Corfforaethol),
Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau
Masnach a Thrwyddedu),
Gareth Rees (Uwch Swyddog Trwyddedu)

Dyddiad: 2 Chwefror 2022

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol